Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (YMCHWILIO) 2024

## Rhagfyr 2024

Mae'r broses o reoleiddio cofrestru ac addasrwydd i ymarfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei rheoli gan dri math o ddogfennau cyfreithiol, sydd **oll** yn berthnasol i gofrestru ac addasrwydd i ymarfer unigolion cofrestredig:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau Llywodraeth Cymru;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'i nodi yn y Rheolau hyn. Dylech felly ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae fersiwn (ddiwygiedig) ddiweddaraf y Ddeddf i'w gweld yn:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents

Rhestrir y Rheoliadau isod a gellir eu gweld yn - http://www.legislation.gov.uk/wsi

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael yn:

https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/sut-mae-gwrandawiadaun-gweithio
https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4), 91(2)(b) a 92(1), (2) a (3) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac yn unol ag adran 75 (3) y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

## TREFNIANT Y RHEOLAU

### RHAN I

### CYFLWYNIAD


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyfeirio, cychwyn a threfniadau trosiannol | 3 |
| 2. | Dehongli | 3 |


### RHAN II

### GWEITHDREFNAU RHAGARWEINIOL


| | | |
|---|---|---|
| 3. | Ystyriaeth ragarweiniol | 6 |
| 4. | Atgyfeirio’n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer | 6 |
| 5. | Atgyfeirio ar gyfer ymchwiliad | 7 |


### RHAN III

### YMCHWILIO


| | | |
|---|---|---|
| 6. | Y weithdrefn | 8 |


### RHAN IV

### PWERAU YN DILYN YMCHWILIAD


| | | |
|---|---|---|
| 7. | Rhybuddion | 9 |
| 8. | Ymgymeriadau | 9 |
| 9. | Dileu o’r gofrestr drwy gytundeb | 11 |
| 10. | Adolygiad o benderfyniadau gan Ofal Cymdeithasol Cymru | 12 |
| 11. | Canslo atgyfeiriad i banel addasrwydd i ymarfer | 13 |

## RHAN I

## CYFLWYNIAD

### Cyfeirio, cychwyn a threfniadau trosiannol

1. (1) Ceir cyfeirio at y Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2024 a byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2024.

(2) Mae'r Rheolau hyn yn berthnasol i unrhyw gŵyn a wneir ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheolau hyn i rym.

(3) Dirymir drwy hyn Reolau Cyngor Gofal Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2014 ("Rheolau 2014"), ond bydd cwyn a dderbyniwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru cyn 3 Ebrill 2017 yn cael ei thrin yn unol â Rheolau 2014, fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(4) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2017 ("Rheolau 2017"), ond bydd cwyn a dderbyniwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar neu ar ôl 3 Ebrill 2017, ond cyn 1 Ebrill 2018, yn cael ei thrin yn unol â Rheolau 2017, fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(5) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2018 ("Rheolau 2018"), ond bydd cwyn a dderbyniwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018, ond cyn 1 Ebrill 2020, yn cael ei thrin yn unol â Rheolau 2018, fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(6) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2020 ("Rheolau 2020"), ond bydd cwyn a dderbyniwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar neu ar ôl 1 Ebrill 2020, ond cyn 1 Hydref 2022, yn cael ei thrin yn unol â Rheolau 2020, fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

(7) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2022 ("Rheolau 2022"), ond bydd cwyn a dderbyniwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar neu ar ôl 1 Hydref 2022, ond cyn 1 Rhagfyr 2024, yn cael ei thrin yn unol â Rheolau 2022, fel petai'r Rheolau hynny'n parhau i fod mewn grym.

### Dehongli

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Mae **"Deddf"** yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd);

Mae **"honiad"** yn golygu unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn cofrestredig sy'n codi amheuon ynglŷn â ph'un a oes amhariad ar addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer, ac mae'n cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i sylw Gofal Cymdeithasol Cymru trwy unrhyw ddull;

Ystyr **"rhestr waharddedig"** yw'r ystyr a roddir iddo yn adran 117(3) y Ddeddf;

Ystyr **"rhybuddiad"** yw'r ystyr a roddir iddo yn adran 189 y Ddeddf;

Mae **“cwyn”** yn golygu gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn cofrestredig sy’n ffurfio’r sail i honiad yn erbyn yr unigolyn hwnnw, ac mae’n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dod i sylw Gofal Cymdeithasol Cymru trwy unrhyw ddull a gwybodaeth sy’n ymwneud ag euogfarnau a rhybuddiadau troseddol;

Mae **“achwynydd”** yn golygu unrhyw unigolyn (gan gynnwys cyflogwr neu sefydliad) sy’n gwneud cwyn yn erbyn unigolyn cofrestredig;

Mae **“diwrnodau”** yn golygu diwrnodau calendr;

Mae **“unigolyn a awdurdodwyd yn briodol”** yn golygu unigolyn y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dirprwyo awdurdod iddo, a gall gynnwys:
(a) un neu fwy o aelodau staff Gofal Cymdeithasol Cymru, a/neu
(b) un neu fwy o unigolion a benodwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru at y diben hwnnw;

Mae **“cyflogwr”** yn cynnwys asiantaethau cyflogaeth, pobl hunangyflogedig, ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (sy’n gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol ohonynt;

Bydd **“addasrwydd i ymarfer”** yn cael ei ddehongli yn unol ag adran 117 y Ddeddf a bydd y termau **“amhariad ar addasrwydd i ymarfer”** ac **“amhariad”** yn cael eu dehongli yn unol â hynny;

Mae **“panel addasrwydd i ymarfer”** yn golygu panel o’r enw hwnnw a gyfansoddwyd yn unol â’r Rheolau Addasrwydd i Ymarfer i wneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd unigolion sydd wedi’u cofrestru ar y gofrestr i ymarfer fel gweithwyr gofal cymdeithasol;

Mae **“Rheolau Addasrwydd i Ymarfer”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2024 neu, os yw’n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach o’r rheolau hynny;

Mae **“cofrestr”** yn golygu’r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

Mae **“unigolyn cofrestredig”** yn golygu unigolyn sydd wedi’i gofrestru mewn rhan o’r gofrestr, ac mae’n cynnwys unigolyn:
(a) y byddai ei gofrestriad wedi darfod o dan adran 87(1) y Ddeddf, heblaw am y ffaith bod is-adran (2) yr adran honno’n berthnasol i’r unigolyn;
(b) y mae gorchymyn atal dros dro mewn grym mewn perthynas ag ef;
(c) y mae gorchymyn atal dros dro interim mewn grym mewn perthynas ag ef;
(ch) y mae gorchymyn atal dros dro amhenodol mewn grym mewn perthynas ag ef;

Mae **“cofrestrydd”** yn golygu’r unigolyn a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

Mae **“cofrestriad”** yn golygu’r cofnod yn y gofrestr sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig penodol;

Ystyr **“corff perthnasol”** yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 117(4)(a) i (f) y Ddeddf;

Ystyr **“trosedd berthnasol”** yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 120(5) y Ddeddf, sef:
(a) yn achos euogfarn yn y Deyrnas Unedig, trosedd y rhoddwyd, neu y gellid bod wedi rhoi, dedfryd o garchar iddi, neu
(b) yn achos euogfarn gan lys rhywle arall, trosedd y gallai dedfryd o garchar fod wedi’i rhoi pe bai’r drosedd wedi cael ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr.[1]

Ystyr **“unigolion perthnasol”** yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 122(3) y Ddeddf;

Mae **“Gofal Cymdeithasol Cymru”** yn golygu’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac a adwaenwyd yn flaenorol fel Cyngor Gofal Cymru;

Mae **“ymgymeriad”** yn golygu cytundeb gan yr unigolyn cofrestredig i gydymffurfio ag ymgymeriad a gynigiwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn unol ag adran 126(3)(d) y Ddeddf.

(2) Yn y rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

(a) mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
(b) mae unrhyw gyfeiriad at reol neu ran wedi’i rhifo yn gyfeiriad at y rheol neu’r rhan sydd â’r rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
(c) mae unrhyw gyfeiriad at baragraff wedi’i rifo mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at y paragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno;
(ch) mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi’i rifo mewn paragraff mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sydd â’r rhif hwnnw yn y rheol neu’r rhan honno.

[1] Mae diwygiadau i Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (2013 a 2020) yn darparu bod rhai rhybuddiadau ac euogfarnau yn cael eu hystyried yn ‘warchodedig’, ar ôl cyfnodau penodedig. Os bydd rhybuddiad neu euogfarn yn warchodedig, ni ddylai fod yn destun atgyfeiriad uniongyrchol i Banel Addasrwydd i Ymarfer. Am arweiniad perthnasol, gweler - https://www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance/dbs-filtering-guide.

## RHAN II

## GWEITHDREFNAU RHAGARWEINIOL

### Ystyriaeth ragarweiniol

3. (1) Ar ôl derbyn gwybodaeth am unigolyn cofrestredig neu pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi mater o bryder posibl yn gysylltiedig ag unigolyn cofrestredig, bydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried p'un a yw'r gyfryw wybodaeth yn gyfystyr â honiad bod amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer.

(2) Er mwyn sefydlu a ellir ystyried bod unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd yn honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer, caiff unigolyn a awdurdodwyd yn briodol wneud y cyfryw ymholiadau rhagarweiniol ag yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, gan gynnwys ceisio gwybodaeth ychwanegol a/neu ffurflen gwyno wedi'i llenwi gan yr achwynydd.

(3) Pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn penderfynu nad yw'r mater yn gymwys i'w atgyfeirio ymlaen o dan adran 120(1) y Ddeddf, bydd unrhyw hysbysiad a roddir i'r unigolion perthnasol o dan adran 122(2) neu (4) y Ddeddf, yn datgan na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ac y bydd y mater yn cael ei gau.

(4) Bydd yr hysbysiad o dan baragraff (3) yn cynnwys y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.

### Atgyfeirio'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer

4. (1) Yn ogystal ag atgyfeiriad uniongyrchol o dan adran 121(a) y Ddeddf[2], mae'n rhaid i unigolyn a awdurdodwyd yn briodol sy'n rhoi ystyriaeth ragarweiniol i fater ei atgyfeirio'n uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer os yw'r mater yn ymwneud â:

(a) rhybuddiad a roddwyd i unigolyn cofrestredig mewn perthynas â throsedd berthnasol;
(b) canfyddiad ffeithiau gan gorff perthnasol i'r perwyl bod amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer; neu
(c) gynnwys yr unigolyn cofrestredig ar restr waharddedig.

(2) Pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn atgyfeirio'r mater o dan baragraff (1)(a) i (c) y rheol hon neu o dan adran 121 y Ddeddf, mae'n rhaid i'r hysbysiad o dan adran 123(2) y Ddeddf:

---

[2] Mae adran 121(a) y Ddeddf yn mynnu atgyfeiriad uniongyrchol i Banel Addasrwydd i Ymarfer os yw'r mater yn ymwneud ag euogfarnu unigolyn am drosedd berthnasol. Diffinir trosedd berthnasol yn adran 120(5) y Ddeddf fel (a) yn achos collfarn gan lys yn y Deyrnas Unedig, trosedd y gosodwyd dedfryd o garchar, neu y gellid bod wedi gosod dedfryd o garchar, mewn cysylltiad â hi, neu (b) yn achos collfarn gan lys yn rhywle arall, trosedd y gallai dedfryd o garchar fod wedi ei gosod mewn cysylltiad â hi, pe bai'r drosedd wedi ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr. Os gwneir gorchymyn yn rhyddhau'r troseddwr yn ddiamod neu'n amodol ac ystyrir nad yw'n euogfarn yn unol ag adran 82 Deddf Dedfrydu 2020, yn yr achos hwnnw, ystyrir nad yw'r mater yn gysylltiedig ag eugofarn o drosedd berthnasol ond gall yn hytrach gael ei ystyried o dan adran 117(1)(b) fel honiad o gamymddygiad difrifol.[2] Mae diwygiadau i Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (2013 a 2020) yn darparu bod rhai rhybuddiadau ac euogfarnau yn cael eu hystyried yn 'warchodedig', ar ôl cyfnodau penodedig. Os bydd rhybuddiad neu euogfarn yn warchodedig, ni ddylai fod yn destun atgyfeiriad uniongyrchol i Banel Addasrwydd i Ymarfer. Am arweiniad perthnasol, gweler - https://www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance/dbs-filtering-guide

(a) gael ei roi yn ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o'r atgyfeiriad;
(b) nodi'r sail/seiliau ar gyfer atgyfeirio'r mater yn uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer.

**Atgyfeirio ar gyfer ymchwiliad**

5. (1) Pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn atgyfeirio'r mater o dan adran 125 y Ddeddf, mae'n rhaid i'r hysbysiad o dan adran 123(2) y Ddeddf gael ei roi o fewn 21 diwrnod o'r atgyfeiriad, a bydd:

(a) yn datgan bod y mater wedi cael ei atgyfeirio ar gyfer ymchwiliad;
(b) yn amlinellu'r weithdrefn o dan reol 6;
(c) o ran hysbysiad i'r unigolyn cofrestredig, yn nodi'r honiad y gallai fod amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer.

## RHAN III

## YMCHWILIO

### Y weithdrefn

6. (1) Yn amodol ar adran 125(5) y Ddeddf, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru benodi:

(a) un neu fwy o aelodau staff Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal ymchwiliadau neu gynorthwyo ag ymchwiliad;
(b) un neu fwy o bobl heblaw am aelodau staff Gofal Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo ag ymchwiliad.

(2) Mae'n rhaid i unigolyn/unigolion a awdurdodwyd yn briodol wneud y cyfryw ymholiadau ag yr ystyrir eu bod yn briodol i ymchwilio i'r honiad, a allai gynnwys gofyn i'r unigolyn cofrestredig, neu unrhyw unigolyn, am wybodaeth neu ddogfennau perthnasol yn unol ag adran 160 y Ddeddf a chael datganiadau tyst a gwybodaeth arall.

(3) Ar ddiwedd yr ymchwiliad i fater sy'n ymwneud ag addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer, mae'n rhaid i unigolyn a awdurdodwyd yn briodol ysgrifennu at yr unigolyn cofrestredig:

(a) gan roi gwybod i'r unigolyn cofrestredig am yr honiad y gallai fod amhariad ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer, os yw'n wahanol i hwnnw a nodwyd yn yr hysbysiad a roddwyd yn flaenorol o dan reol 5(1)(c);
(b) gan roi copïau i'r unigolyn cofrestredig o unrhyw wybodaeth a/neu ddogfennau a dderbyniwyd neu a gasglwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru wrth ymchwilio i'r honiad;
(c) gan wahodd yr unigolyn cofrestredig i ymateb i'r honiad gyda sylwadau ysgrifenedig a chopïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau y mae'r unigolyn cofrestredig eisiau iddynt gael eu hystyried o fewn cyfnod o 28 niwrnod o ddyddiad llythyr Gofal Cymdeithasol Cymru; a
(ch) chan roi gwybod i'r unigolyn cofrestredig y bydd y cyfryw sylwadau'n cael eu datgelu i'r achwynydd, pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol.

(4) Oni bai bod Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn ei bod yn amhriodol, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu i'r achwynydd y cyfryw sylwadau a dderbyniwyd gan yr unigolyn cofrestredig, gan wahodd sylwadau ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod.

(5) Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru anfon copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr achwynydd o dan baragraff (4) at yr unigolyn cofrestredig. Fodd bynnag, oni bai bod unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn credu ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol yn amgylchiadau penodol yr achos, ni fydd unrhyw sylwadau ychwanegol a gyflwynwyd gan yr unigolyn cofrestredig yn cael eu hystyried wrth benderfynu p'un ai atgyfeirio'r achos ar gyfer gwrandawiad gerbron panel addasrwydd i ymarfer.

## RHAN IV

## PWERAU YN DILYN YMCHWILIAD

**Rhybuddion**

7. (1) Pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn cynnig rhoi rhybudd i unigolyn cofrestredig, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru anfon hysbysiad, o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad, at yr unigolyn cofrestredig, a fydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

(a) y cynnig ar gyfer rhybudd;
(b) y rheswm/rhesymau dros y cynnig;
(c) hawl yr unigolyn cofrestredig i wneud sylwadau naill ai'n ysgrifenedig neu'n bersonol mewn gwrandawiad gerbron y panel addasrwydd i ymarfer, yn amodol ar hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ysgrifenedig o'r dymuniad i arfer y gyfryw hawl o fewn 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad;
(ch) hawl yr unigolyn cofrestredig i gael ei gynrychioli mewn gwrandawiad;
(d) esboniad o'r weithdrefn mewn gwrandawiad llafar ynglŷn â rhybudd arfaethedig o dan Reol 25 y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.

(2) Pan na fydd yr unigolyn cofrestredig yn ymateb i hysbysiad o dan baragraff (1) y rheol hon, neu pan fydd yn ymateb gan gadarnhau nad yw'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau, caiff yr unigolyn a awdurdodwyd yn briodol roi'r rhybudd heb fod angen gwrandawiad.

(3) Pan roddir rhybudd o dan baragraff (2), mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi gwybod i'r canlynol o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol);
(ch) y brifysgol, os yw'r unigolyn wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr.

(4) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd roi gwybod i'r canlynol o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) corff perthnasol;
(c) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

(5) Bydd Rheol 25 y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer yn berthnasol pan fydd unigolyn cofrestredig wedi gofyn am wrandawiad llafar wrth ymateb i hysbysiad o dan baragraff (1) y rheol hon.

**Ymgymeriadau**

8. (1) Bydd y rheol hon yn berthnasol pan na wnaed atgyfeiriad i banel addasrwydd i ymarfer yn unol ag adran 126(2) y Ddeddf a bydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn ystyried:

(a) bod tebygolrwydd go iawn o ganfod amhariad ar addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â honiad yn erbyn unigolyn cofrestredig, p'un a yw'r unigolyn cofrestredig yn cyfaddef bod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer ai peidio, ond
(b) ni fyddai'n groes i fudd y cyhoedd i waredu'r achos trwy ymgymeriad(au) y mae'r unigolyn cofrestredig yn cytuno i gydymffurfio ag ef/â nhw.

(2) Bydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn rhoi hysbysiad i'r perwyl hwnnw i'r unigolyn cofrestredig, o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad, ac yn rhoi telerau'r ymgymeriad(au) arfaethedig.

(3) Bydd achos yn cael ei waredu o dan baragraff (1) dim ond pan fydd yr unigolyn cofrestredig:

(a) yn cyfaddef yr honiad(au) perthnasol;
ac
(b) yn cadarnhau o fewn 14 diwrnod o gyflwyno'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) ei fod yn cytuno i gydymffurfio â'r ymgymeriad(au) arfaethedig.

(4) Pan na fydd yr unigolyn cofrestredig yn cytuno i'r achos gael ei waredu yn unol â pharagraff (2) y rheol hon, ceir atgyfeirio'r unigolyn cofrestredig i banel addasrwydd i ymarfer.

(5) Pan fydd yr achos yn cael ei waredu trwy ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi gwybod i'r canlynol am y canlyniad o fewn saith diwrnod:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol);
(ch) y brifysgol, os yw'r unigolyn wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr.

(6) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd roi gwybod i'r canlynol:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
(c) corff perthnasol.

(7) Pan fydd achos yn cael ei waredu trwy ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon, bydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn gofyn i'r:

(a) unigolyn cofrestredig; neu
(b) gyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol)

ddarparu'r gyfryw wybodaeth ag a fydd yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i benderfynu p'un a gydymffurfiwyd â'r ymgymeriad(au) neu a barheir i gydymffurfio ag ef/â nhw.

(8) Pan fydd yr achos yn cael ei waredu trwy ymgymeriad(au) yn unol â'r rheol hon ac mae unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn cael gwybodaeth wedi hynny sy'n dangos y cydymffurfiwyd yn llwyr â gofynion yr ymgymeriad(au), bydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn hysbysu'r unigolyn cofrestredig na ddylai'r ymgymeriad(au) fod yn berthnasol mwyach a chaiff roi hysbysiad

i’r perwyl hwnnw i’r cyfryw unigolion eraill a nodir ym mharagraffau (5) a (6) y rheol hon.

(9) Pan fydd yr achos yn cael ei waredu trwy ymgymeriad(au) yn unol â’r rheol hon ac mae unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn cael gwybodaeth wedi hynny sy’n dangos na chydymffurfiwyd ag ymgymeriad(au) (neu os nad yw’r unigolyn cofrestredig yn darparu gwybodaeth berthnasol mewn ymateb i gais o dan baragraff (7)(a) y rheol hon), bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn atgyfeirio’r achos i banel addasrwydd i ymarfer i gynnal adolygiad yn unol ag adran 133(3) y Ddeddf.

(10) Bydd adran 152 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw adolygiad o ymgymeriadau gan banel addasrwydd i ymarfer.

**Dileu o’r gofrestr drwy gytundeb**

9. (1) Pan fydd unigolyn cofrestredig sy’n destun honiad(au) ynghylch amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn gwneud cais o dan adran 92 y Ddeddf i’r cofnod sy’n ymwneud â’r unigolyn hwnnw gael ei ddileu drwy gytundeb, ni fydd y cais yn cael ei ganiatáu heblaw yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn y rheol hon.

(2) Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan unigolyn a awdurdodwyd yn briodol i beidio ag atgyfeirio’r unigolyn cofrestredig i banel addasrwydd i ymarfer, caiff y cofrestrydd ddileu cofnod yr unigolyn cofrestredig o’r gofrestr.

(3) Bydd paragraffau (4) a (5) yn berthnasol o ran unigolyn cofrestredig pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol:

(a) yn fodlon bod tebygolrwydd go iawn o ganfod amhariad ar addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â’r honiad yn erbyn unigolyn cofrestredig, ond
(b) nid oes angen gwrandawiad o’r honiad(au) yn erbyn yr unigolyn cofrestredig er budd y cyhoedd.

(4) Pan fydd paragraff (3) yn berthnasol, caiff unigolyn a awdurdodwyd yn briodol:

(a) wahodd yr unigolyn cofrestredig i gytuno â datganiad ysgrifenedig o ffeithiau a’i lofnodi; a
(b) rhoi gwybod i’r unigolyn cofrestredig, os caniateir y cais am ddileu o’r gofrestr, y bydd y datganiad o ffeithiau cytunedig yn cael ei ystyried wrth bwyso a mesur unrhyw gais am gofrestriad yn unrhyw ran o’r gofrestr yn y dyfodol.

(5) Pan fydd gofynion paragraffau (4)(a) a (b) yn cael eu bodloni, caiff y cofrestrydd ddileu cofnod yr unigolyn cofrestredig o’r gofrestr.

(6) Pan fydd yr achos yn cael ei waredu yn unol â’r rheol hon, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhoi gwybod i’r canlynol am y canlyniad o fewn saith diwrnod:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw’n berthnasol);
(ch) y brifysgol, os yw’r unigolyn wedi’i gofrestru yn y rhan o’r gofrestr ar gyfer myfyrwyr.

(7) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd roi gwybod i'r canlynol:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
(c) corff perthnasol.

**Atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer**

10. (1) Pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn atgyfeirio'r mater i banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 126(2) y Ddeddf, rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi gwybod i'r canlynol am y canlyniad o fewn saith diwrnod:

(a) yr unigolyn cofrestredig;
(b) yr achwynydd;
(c) cyflogwr/cyflogwyr yr unigolyn cofrestredig (os yw'n berthnasol);
(ch) y brifysgol, os yw'r unigolyn wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer myfyrwyr.

(2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd roi gwybod i'r canlynol am y canlyniad o fewn saith diwrnod:

(a) Llywodraeth Cymru;
(b) corff perthnasol
(c) y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Adolygiad o benderfyniadau gan Ofal Cymdeithasol Cymru**

11. (1) Bydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn adolygu'r penderfyniadau canlynol o dan adrannau 131(1) a (2) y Ddeddf:

(a) penderfyniad i beidio ag atgyfeirio'r mater i banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 121 neu 126(2) y Ddeddf;
(b) penderfyniad i beidio ag atgyfeirio'r mater am ymchwiliad o dan adran 125 y Ddeddf; a
(c) phenderfyniad i waredu achos ar ôl ymchwiliad o dan adran 126(3) y Ddeddf.

(2) Mae'n rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato yn adran 131(4) a anfonir at yr unigolyn cofrestredig y gwnaed y penderfyniad sy'n destun adolygiad ynglŷn ag ef:

(a) gynnwys copïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau a dderbyniwyd neu a gasglwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn rhan o'r ymchwiliad rhagarweiniol o'r honiad(au) na ddatgelwyd yn flaenorol;
(b) gwahodd yr unigolyn cofrestredig i ymateb i'r penderfyniad i gynnal adolygiad gyda sylwadau ysgrifenedig a chopïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau y mae'r unigolyn cofrestredig eisiau iddynt gael eu hystyried o fewn y cyfnod 21 diwrnod o ddyddiad llythyr Gofal Cymdeithasol Cymru; a
(c) rhoi gwybod i'r unigolyn cofrestredig y bydd y cyfryw sylwadau'n cael eu datgelu, pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn bod hynny'n briodol,

i'r achwynydd neu unigolyn arall/unigolion eraill a enwyd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn credu bod ganddo/ganddynt fuddiant yn y penderfyniad i wneud sylwadau.

(3) Oni bai bod unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn credu ei bod yn amhriodol, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatgelu i'r achwynydd, a chaiff ddatgelu i unigolyn arall/unigolion eraill a enwyd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn credu bod ganddo/ganddynt fuddiant yn y penderfyniad, y cyfryw sylwadau a dderbyniwyd gan yr unigolyn cofrestredig, gan wahodd sylwadau ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod.

(4) Mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru anfon copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr achwynydd at yr unigolyn cofrestredig. Fodd bynnag, oni bai bod unigolyn a awdurdodwyd yn briodol o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol yn amgylchiadau penodol yr achos, ni fydd unrhyw sylwadau ychwanegol a gyflwynir gan yr unigolyn cofrestredig yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad ym mharagraff (5).

(5) Caiff unigolyn a awdurdodwyd yn briodol benderfynu:

(a) atgyfeirio mater i banel addasrwydd i ymarfer;
(b) atgyfeirio mater ar gyfer ymchwiliad;
(c) gwaredu achos trwy un o'r dulliau a bennir yn adran 126(3) y Ddeddf.

**Canslo atgyfeiriad i banel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer**

12. (1) Pan fydd unigolyn a awdurdodwyd yn briodol yn ystyried p'un ai canslo atgyfeiriad i banel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 132 y Ddeddf, mae'n rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r achwynydd.

(2) Mae'n rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1):

(a) ddatgan y rheswm/rhesymau pam y gallai'r amgylchiadau y cyfeirir atynt yn adran 132(1)(a) neu (b) fod yn berthnasol;
(b) gwahodd yr achwynydd i gyflwyno unrhyw sylwadau o fewn cyfnod o 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.

(3) Heb fod yn gynt na diwedd y cyfnod 21 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2), mae'n rhaid i'r unigolyn a awdurdodwyd yn briodol:

(a) ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwyd gan yr achwynydd;
(b) gwneud un o'r penderfyniadau a bennir yn adran 132(2)(a) neu (b) y Ddeddf;
(c) rhoi rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Mae'n rhaid i hysbysiad o'r penderfyniad o dan adran 132(4) y Ddeddf gael ei roi o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad.

**Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru**



**Mick Giannasi**

**Cadeirydd, Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Dyddiad: 1.12.24**